OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 No. 1992

# Gorchymyn Defaid a Geifr (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) 2015

## RHAN 4

Tynnu neu amnewid modd adnabod anifeiliaid a gafodd eu hadnabod o dan Ran 3

### Amnewid modd adnabod a gollwyd neu sy'n annarllenadwy, ar gyfer anifeiliaid a adnabuwyd yn unol ag erthygl 10 neu erthygl 11

**15.**—(1) Pan fo anifail a adnabuwyd yn unol ag erthygl 10 neu erthygl 11 yn colli ei dag clust neu'r tag clust hwnnw'n mynd yn annarllenadwy a'r anifail ar ei ddaliad genedigol, mae'n cael ei ailadnabod yn unol â'r erthygl hon os amnewidir y tag clust am un sy'n dwyn yr un nod diadell neu'r un nod geifre.

(2) Pan fo anifail a adnabuwyd yn unol ag erthygl 10 neu erthygl 11 yn colli ei dag clust neu'r tag clust hwnnw'n mynd yn annarllenadwy ac nad yw'r anifail ar ei ddaliad genedigol, neu os nad yw'r ceidwad yn gwybod a yw'r anifail ar ei ddaliad genedigol ai peidio, mae'r anifail yn cael ei ailadnabod yn unol â'r erthygl hon os amnewidir y tag clust am dag clust coch sy'n dwyn nod y ddiadell neu nod yr eifre ar gyfer y daliad y mae'r anifail arno bellach.